**Fforwm Partneriaeth Lleol**
**Cylch Gorchwyl**
**Mehefin 2025**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Y Fforwm Partneriaeth Lleol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (y sefydliad) yw'r mecanwaith ffurfiol lle mae rheolwyr y sefydliad ac Undebau Llafur cydnabyddedig yn cydweithio i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Dyma'r fforwm lle gall rhanddeiliaid allweddol drafod ac ystyried cyfeiriad, blaenoriaethau a chynlluniau strategol y sefydliad a sut y bydd y rhain yn effeithio ar y gweithlu. Byddant hefyd yn ymgysylltu â'i gilydd i hysbysu, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu.

1.2 Mae dau ddiben i'r Fforwm Partneriaeth Lleol (LPF):

1.2.1 Dyma lle gall rhanddeiliaid allweddol ymgysylltu â'i gilydd i flaenoriaethu, hysbysu, trafod a cheisio cytundeb ar faterion strategol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd y cyhoedd a'r gweithlu gan alluogi trafodaethau strategol lefel uchel i gael eu cynnal mewn perthynas â chyfeiriad y sefydliad yn y dyfodol.

1.2.2 Bydd hefyd yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng yr Undebau Llafur a rheolwyr ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r gweithlu sy'n codi o flaenoriaethau a chynlluniau'r sefydliad.

1.3 Bydd materion gweithredol, dydd i ddydd yn cael eu trafod a'u datrys fel arfer ar lefel Cyfarwyddiaeth neu is-adrannol.

1.4 Mae cyfle hefyd i ddatrys unrhyw faterion anffurfiol/gweithredol drwy ddeialog reolaidd yng Nghyfarfodydd Anffurfiol Gweithio mewn Partneriaeth. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob deufis (yn y misoedd nad yw'r Fforwm Partneriaeth Lleol i fod i gyfarfod), cânt eu cadeirio gan Reolwr Gwasanaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol neu ddirprwy enwebedig. Mae aelodau o'r gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Pwyllgor Ochr y Staff yn bresennol.

1.5 Wrth groesawu ethos gweithio mewn partneriaeth, bydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu ag Undebau Llafur cydnabyddedig yn y trafodaethau allweddol sy'n effeithio ar y sefydliad a'i bobl ym Mwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i Bwyllgorau, y Fforwm Partneriaeth Lleol a, lle bo'n briodol, ar lefel Cyfarwyddiaeth Leol, neu is-adrannol.

1.6 Bydd y Fforwm Partneriaeth Lleol yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng yr Undebau Llafur a'r rheolwyr.

1.7 Fel uchod, bydd aelodau'r Fforwm Partneriaeth Lleol a Phobl a Datblygu Sefydliadol yn gweithio i ddatrys problemau gweithredol y tu allan i'r fforwm hwn. Yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei wneud, mae'n bosibl y bydd gofyn adrodd yn ôl i'r Fforwm Partneriaeth Lleol neu i'r Fforwm Partneriaeth Lleol gyfeirio gwaith i'r grŵp gweithredol.

## 2. Egwyddorion

2.1 Fel y nodir yn y Siarter Gweithio mewn Partneriaeth, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, mae'n cefnogi'r gweithlu a'r rheolwyr i oresgyn heriau ac yn caniatáu inni dyfu, dysgu a datblygu. Seilir ein perthnasoedd ar ymddiriedaeth a hyder ac maent yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i gydweithio.

2.2 Bydd chwe egwyddor partneriaeth y TUC yn sail i berthnasoedd a gwaith y Fforwm Partneriaeth Lleol:

- ymrwymiad ar y cyd i lwyddiant y sefydliad
- ffocws ar ansawdd bywyd gweithio ein staff
- cydnabyddiaeth o rolau cyfreithlon y cyflogwr a'r undeb llafur
- ymrwymiad gan y cyflogwr i sicrwydd cyflogaeth
- diffuantrwydd ar y ddwy ochr a pharodrwydd y cyflogwr i rannu gwybodaeth a thrafod cynlluniau'r sefydliad ar gyfer y dyfodol
- ychwanegu gwerth - cyd-ddealltwriaeth bod y bartneriaeth yn cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r cyflogwr, yr undeb a'r gweithwyr

2.3 Yn ogystal â'r uchod, mae rheolwyr ac Undebau Llafur yn cadw at yr egwyddorion cyffredinol canlynol sy'n seiliedig ar yr ymddygiad a fabwysiadwyd gan Aelodau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru:

2.4 Nodir yr agweddau sy'n arbennig o berthnasol i Aelodau'r Fforwm Partneriaeth Lleol a mynychwyr isod:

- Ymgorffori gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cadw wrth Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol, a Chodau Ymddygiad perthnasol
- Datgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl ar ddechrau cyfarfod (neu wrth iddynt godi os byddant yn dod i'r amlwg yn ystod y broses)

- Bod yn barchus a chwrtais at eraill gan gydnabod bod gwerth i bob cyfraniad
- Gwrando'n astud a herio'n adeiladol
- Rheoli gwrthdaro yn wrthrychol, archwilio gwahaniaethau yn llawn a chwilio am atebion. Parchu safbwyntiau gwahanol
- Bod yn gefnogol a theyrngar i aelodau eraill y Fforwm Partneriaeth Lleol
- Ymrwymo i fod yn agored, tryloyw a gonest a dangos hynny drwyddi draw
- Diffodd sain ffonau symudol, canolbwyntio ar yr agenda a thrafodaethau sydd ar y gweill, ac ymatal rhag ymgymryd â gwaith arall
- Osgoi ailadrodd pwyntiau a wnaed gan Aelodau eraill y Fforwm Partneriaeth Lleol
- Mabwysiadu dull o wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau
- Bod yn effro bob amser i faterion amrywiaeth a chynhwysiant
- Tynnu sylw'r Cadeirydd ymlaen llaw os bydd angen i chi adael y cyfarfod Fforwm ar unrhyw adeg

## 3. Pwrpas

3.1 Diben y Fforwm Partneriaeth Lleol yw sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch reolwyr ac Undebau Llafur cydnabyddedig ar faterion sy'n ymwneud â'r materion strategol allweddol a chyfeiriad y sefydliad ac unrhyw sefydliadau a letyir yn y dyfodol. Bydd trafodaethau o'r fath yn cael eu cyfyngu i flaenoriaethau a chynlluniau sefydliadol lefel uchel gan alluogi'r Fforwm Partneriaeth Lleol i fod yn fecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng yr Undebau Llafur cydnabyddedig a rheolwyr ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys ac yn galluogi:

- deialog reolaidd a ffurfiol rhwng y sefydliad a'r Undebau Llafur ar faterion sy'n ymwneud â gweithlu strategol a materion sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu
- y cyflogwr a'r Undebau Llafur i gyflwyno materion sy'n effeithio ar y gweithlu
- cyfleoedd i Undebau Llafur a rheolwyr gyfrannu at gynlluniau datblygu gwasanaeth yn gynnar yn y broses
- ystyried goblygiadau adolygiadau gwasanaeth a newid sefydliadol i'r gweithlu, a nodi a cheisio cytuno ar ffyrdd newydd o weithio
- ystyried goblygiadau i'n pobl o ran ad-drefnu'r GIG ar lefel genedlaethol neu leol a gweithio mewn partneriaeth i'w weithredu'n llwyddiannus i'r naill a'r llall
- gwerthuso a thrafod perfformiad ariannol y sefydliad mewn partneriaeth yn rheolaidd

- gwerthuso a thrafod mewn partneriaeth weithgarwch sefydliadol a pherfformiad gwasanaeth a'r goblygiadau
- cyfleoedd i nodi, trafod a cheisio cytuno ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys llywodraethu clinigol, yn enwedig pan fo materion o'r fath yn effeithio ar ein pobl
- cyfleu'r penderfyniadau allweddol a wneir gan sefydliad a'r uwch reolwyr i'r Fforwm Partneriaeth Lleol
- ystyried datblygiadau cenedlaethol fel rhan o Strategaeth Gweithlu GIG Cymru a'r goblygiadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru gan gynnwys materion yn ymwneud ag ail-broffilio gwasanaethau.
- negodi materion sy'n destun penderfyniadau lleol
- datblygu ac adolygu polisïau (gweler 4.2)
- datblygu mewn partneriaeth drefniadau cyfleusterau priodol trwy ddefnyddio'r Cytundeb Cyfleusterau Agenda ar gyfer Newid fel safon ofynnol
- cynrychiolwyr undebau llafur yn cael amser rhesymol i ffwrdd â thâl i ymgymryd â dyletswyddau undeb llafur

3.2 Yn ogystal â'r uchod, efallai y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu grwpiau lleol ar lefel Cyfarwyddiaeth,  ac is-adrannol yn ôl y gofyn, i sefydlu deialog, cyfathrebu ac ymgynghori parhaus ar faterion rheoli gweithredol a gwasanaeth sy'n benodol i bob maes.

## 4. Pwerau ac Awdurdod Dirprwyedig

4.1 Mae'n bosibl y bydd y Fforwm Partneriaeth Lleol yn sefydlu is-bwyllgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen i gyflawni ar ei ran agweddau penodol ar waith y Fforwm Partneriaeth Lleol.

4.2 Cynhelir gweithdai Datblygu Polisi yn rheolaidd i adolygu a datblygu polisïau, gweithdrefnau, canllawiau, protocolau a chynlluniau Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae'r fforwm hwn yn fecanwaith i reolwyr a chynrychiolwyr undebau llafur, wedi'i hwyluso gan yr isadran Pobl a Datblygu Sefydliadol, gyfarfod i adolygu a datblygu polisïau ar y cyd i'w hargymell i'r Fforwm Partneriaeth Lleol, y Tîm Busnes Gweithredol/Tîm Arweinyddiaeth a, lle bo'n briodol, i gael cadarnhad terfynol gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Dylai'r Fforwm Partneriaeth Lleol adolygu a rhoi sylwadau ar bob polisi sy'n ymwneud â phobl, a gellir rheoli hyn naill ai yng nghyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol neu'n electronig rhwng cyfarfodydd os oes angen. Gall polisïau eraill hefyd fod yn briodol ar gyfer adolygu'r Fforwm Partneriaeth Lleol a dylid cytuno ar hyn ar y cyd.

4.3 Bydd cofnodion cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol er gwybodaeth.

4.4 Lle na ellir datrys materion byddant yn cael eu cyfeirio i fforwm llywodraethu priodol.

## 5. Cyfarfodydd Fforwm Partneriaeth Lleol

5.1 Bydd cyfarfodydd o'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael eu cynnal bob dau fis a fydd yn ystyried unrhyw faterion strategol allweddol a chyfeiriad strategol y sefydliad fel y mae'n berthnasol i'r gweithlu. Bydd eitemau allweddol i'w hystyried yn cael eu cynnwys mewn cynllun gwaith blynyddol er mwyn cefnogi effeithlonrwydd wrth reoli'r agenda a sicrhau bod y bobl berthnasol yn bresennol.

5.2 Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio bob yn ail gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chadeirydd y Pwyllgor Ochr y Staff, neu eu Dirprwyon enwebedig, sy'n Gadeiryddion ar y Cyd y Fforwm Partneriaeth Lleol.

5.3 Cynhelir cyfarfod cyn gosod yr agenda ar gyfer pob cyfarfod deufisol, rhwng Cyd-gadeiryddion y Fforwm Partneriaeth Lleol er mwyn trafod a chytuno ar yr agenda.

5.4 Yn achos holl gyfarfodydd deufisol y Fforwm Partneriaeth Lleol dylai cael dau gynrychiolydd sy'n rheolwr (rhaid i un ohonynt fod yn uwch aelod o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol) a dylai dau fod yn gynrychiolwyr o ochr y Staff. Rhaid i'r naill a'r llall gynrychioli Undebau Llafur cydnabyddedig ar wahân (a rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd neu Is- Ysgrifennydd y Pwyllgor Ochr y Staff) er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

5.5 Os nad oes cworwm mewn cyfarfod ni ellir gwneud penderfyniadau ond gellir cyfnewid gwybodaeth, a gellir cymeradwyo argymhellion yn y cyfarfod nesaf (pan fydd cworwm).

5.6 Penderfynir a chytunir ar y cylch cyfarfodydd ar ddechrau pob blwyddyn ond yn gyffredinol bydd yn dilyn yr amserlen isod:

- Ebrill
- Mehefin
- Awst
- Hydref
- Rhagfyr
- Chwefror

5.7 Gall Cyd-gadeiryddion, drwy gytundeb, drefnu cyfarfodydd eithriadol drwy roi 7 diwrnod calendr o rybudd.

5.8 Bydd busnes y cyfarfodydd deufisol yn cael eu cyfyngu i bynciau sy'n ymwneud â materion strategol a thrafodaethau/diweddariadau mewn perthynas â rhaglenni newid a mentrau corfforaethol mawr. Dylid codi materion gweithredol lleol ar lefel y Gyfarwyddiaeth leol, a/neu eu codi yn y cyfarfod Gwaith Partneriaeth anffurfiol ac ni chânt eu hystyried yn y Fforwm Partneriaeth Lleol oni bai y cytunir bod gan faterion o'r fath oblygiadau i'r sefydliad cyfan.

5.9 Anfonir yr agenda a'r papurau allan ddim hwyrach na saith diwrnod cyn cyfarfod y Fforwm Partneriaeth Lleol.

## 6. Aelodaeth

6.1 Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chadeirydd y Pwyllgor Ochr y Staff yn Gadeiryddion ar y Cyd y Fforwm Cyllideb ac yn cadeirio bob yn ail.

6.2 Bydd pob aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

6.3 Os bydd gan gyfarfod fwy o gynrychiolwyr naill ai o'r Undebau Llafur neu o'r Rheolwyr, bydd hawliau pleidleisio'r cyfarfod yn parhau'n gyfartal, a digon yw dweud mai ffocws y Fforwm Partneriaeth Lleol yw ymgysylltu a thrafod effeithiol, a negodi lle bo angen. Ni chyflawnir hyn drwy'r nifer sy'n bresennol ond drwy gydnabod bod y sefydliad a'r Undebau Llafur yn bartneriaid cyfartal yn y Fforwm Partneriaeth Lleol.

6.4 Lle na ellir datrys materion byddant yn cael eu cyfeirio i fforwm llywodraethu priodol.

6.5 Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn cynnwys yr Undebau Llafur cydnabyddedig a ganlyn:

- GMB
- MiP
- Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- Cymdeithas y Radiograffwyr
- UNSAIN
- Unite

6.6 Bydd aelodaeth y Rheolwyr mewn cyfarfodydd deufisol yn cael ei phennu gan yr agenda benodol y cytunwyd arni ar gyfer y cyfarfod ond bydd yn cynnwys:

- Aelodau'r Tîm Gweithredol
- Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd

- Pennaeth Partneru Pobl a Datblygu Sefydliadol a/neu Bartner Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Pennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Gwasanaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol

6.7 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai dirprwyon fod yn bresennol a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r Cyd-gadeiryddion.

## 7. Cynrychiolwyr staff

7.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod yr Undebau Llafur hynny a restrir ar gyfer cynrychiolaeth gan aelodau a gyflogir gan y sefydliad.

7.2 Uchelfraint y cynrychiolwyr staff fydd penderfynu ar y fformiwla i sicrhau'r uchafswm o gynrychiolwyr ar gyfer pob Undeb Llafur. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol y bydd uchafswm o rhwng 6-10 cynrychiolydd o ochr y Rheolwyr a'r Staff yn bresennol ym mhob cyfarfod.

7.3 Bydd y Cyd-gadeiryddion yn adolygu ac yn cytuno ar bresenoldeb cyn pob Cyfarfod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol i sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynrychioli'n briodol ac y gellir ei reoli.

7.4 Rhaid i gynrychiolwyr staff fod wedi'u cyflogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'u hachredu gan eu Hundebau Llafur priodol. Os bydd cynrychiolydd yn peidio â chael ei gyflogi gan y sefydliad neu'n peidio â bod yn aelod o Undeb Llafur sy'n enwebu yna bydd yn awtomatig yn peidio â bod yn aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Gall Swyddogion Llawn Amser yr undebau llafur fynychu cyfarfodydd fel gwylwyr yn amodol ar hysbysiad ymlaen llaw a chytundeb y Cyd-gadeiryddion.

7.5 Gall aelodau o'r Fforwm Partneriaeth Lleol nad ydynt yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod anfon dirprwy addas (yn unol ag Adran 6.3 uchod) a fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu a oes cworwm yn y cyfarfod.

7.6 Mae presenoldeb cyson ac ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaethau yn hanfodol. Pan nad yw aelod o'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn bresennol mewn blwyddyn (ac eithrio am resymau salwch, gwyliau blynyddol wedi'u cynllunio ymlaen llaw, absenoldeb mamolaeth, ac ati), bydd y Cyd-gadeiryddion yn ysgrifennu at yr aelod ac yn dod â'r ymateb i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried ymhellach a'r posibilrwydd o dynnu'r aelod dan sylw o'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

7.7 Gall Cyd-gadeiryddion y Fforwm Partneriaeth Lleol hefyd wahodd unrhyw un arall o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r sefydliad i fod yn

bresennol mewn cyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod er mwyn cynorthwyo yn ei drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

7.8 Rhoddir cefnogaeth i'r Cyd-gadeiryddion gan Bennaeth Gweithrediadau Pobl a Datblygu Sefydliadol a fydd yn sicrhau bod materion allweddol a phriodol yn cael eu trafod gan y Fforwm Partneriaeth Lleol mewn modd amserol gyda'r holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol ar gael i'r aelodau i lywio'r drafodaeth a'r penderfyniadau terfynol. Bydd y Pennaeth Pobl a Gweithrediadau Datblygu Sefydliadol yn atebol am fonitro presenoldeb i sicrhau bod cworwm yn y cyfarfod.

7.9 Bydd cefnogaeth weinyddol, gan gynnwys dosbarthu agendâu, cofnodion a hysbysiadau am gyfarfodydd, yn cael ei darparu gan aelod enwebedig o'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol.

## 8. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd

8.1 Bydd y Fforwm Partneriaeth Lleol yn:

- Adrodd ar bob un o'i gyfarfodydd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol trwy gyflwyno ei gofnodion
- Dwyn i sylw'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol unrhyw fater o bwys sy'n cael ei ystyried gan y Fforwm Partneriaeth Lleol drwy'r eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.
- Darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd mewn perthynas â gweithgareddau'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

8.2 Bydd yr Undebau Llafur (ochr y staff Fforwm Partneriaeth Lleol) trwy eu mecanweithiau Pwyllgor ochr y Staff, yn enwebu aelodau o ochr y staff y Fforwm Partneriaeth Lleol i fod yn bresennol yn y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn unol â pholisïau a threfniadau y cytunwyd arnynt.

## 9 Adolygu

9.1 Bydd y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Dylid trefnu hyn ar gyfer Ebrill-Mehefin bob blwyddyn.